Cynlluniau ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear posibl

Cynnwys y Cyhoedd



Mae hwn yn fersiwn gwe-gyfeillgar o daflen MISC790W

Mae'r daflen hon yn esbonio sut mae'r asesiad o gynllun cyffredinol yn gweithio, yr hyn sy'n digwydd nawr, pwy sy'n ymgymryd â'r gwaith, a sut y gallwch gymryd rhan

Asesiad o gynllun cyffredinol adweithwyr niwclear

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi datblygu proses newydd i asesu cynlluniau gorsafoedd ynni niwclear. Mae'r 'asesiad o gynllun cyffredinol' (GDA) yn broses strwythuredig, gyda sawl cam, a fydd yn digwydd dros sawl blwyddyn. Mae'n ein galluogi i asesu diogelwch a goblygiadau amgylcheddol cynlluniau newydd cyn y gwneir cais i adeiladu gorsaf ynni niwclear ar safle penodol.

Drwy ei Gyfarwyddiaeth Niwclear, mae HSE yn rheoleiddio agweddau ar ddiogelwch gorsafoedd ynni niwclear drwy'r broses o'u cynllunio, adeiladu, gweithredu a dadgomisiynu. Mae'r Gyfarwyddiaeth Niwclear yn cynnwys yr Arolygiaeth Gosodiadau Niwclear, sy'n gyfrifol am oruchwylio diogelwch safleoedd niwclear. Mae hefyd yn cynnwys y Swyddfa Diogelwch Niwclear Sifil, sy'n gorfodi trefniadau diogelwch mewn safleoedd niwclear sifil.

Yng Nghymru a Lloegr, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio'r broses o ryddhau gwastraff (yn cynnwys gwastraff ymbelydrol) o orsafoedd ynni niwclear i'r amgylchedd, a'r broses derfynol o waredu gwastraff o'r safleoedd hyn. Yn yr Alban, mae gan Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) gyfrifoldebau tebyg. Nid yw SEPA yn cymryd rhan yn yr asesiad o gynllun cyffredinol ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd.

Beth sy'n digwydd ar ôl asesiad o gynllun cyffredinol?

Mae'n debygol y bydd GDA yn cymryd tua thair blynedd a hanner, ac ar ôl hynny dylem allu dweud a yw cynllun yn dderbyniol ai peidio. Mae hyn yn cynnwys a fyddai'n gallu gweithredu'n ddiogel a bod yn dderbyniol o safbwynt amgylcheddol.

Ar ôl cwblhau'r GDA yn llwyddiannus, byddai angen i weithredwyr posibl ddod o hyd i safle addas, ymdrin ag unrhyw faterion sy'n benodol i'r safle, dangos eu gallu i weithredu'r cynllun yn ddiogel, a chymryd cyfrifoldeb trwyddedai safle niwclear, a gwneud cais i ni am ganiatâd i ddechrau adeiladu. Rhagwelir y dylai'r broses caniatâd hon sy'n benodol i safle gymryd hyd at flwyddyn.

Yn ogystal â chytundeb y rheoleiddwyr niwclear, bydd angen hawlebau cyfreithiol eraill ar ddarpar weithredwr safle, e.e. caniatâd cynllunio, cyn dechrau adeiladu.

Pan fydd unrhyw waith adeiladu wedi dechrau, byddwn yn gweithio'n agos gyda gweithredwyr y safle i sicrhau bod yr orsaf ynni yn cydymffurfio â gofynion llym y gyfraith.

Pam rydym yn dweud hyn wrthych nawr?

Nodwyd cynlluniau'r Llywodraeth i fynd i'r afael â heriau ynni hirdymor y DU yn y Papur Gwyn ar Ynni[1] a gyhoeddwyd ym mis Mai 2007.

Yn ogystal â'r Papur Gwyn, cyhoeddodd y Llywodraeth ddogfen ymgynghori am ddyfodol ynni niwclear yn y DU hefyd.[2] Codwyd rhai cwestiynau am ynni niwclear a bydd yr ymatebion i'r cwestiynau hyn yn helpu'r Llywodraeth i benderfynu a ddylid caniatáu'r opsiwn i gwmnïau ynni yn y sector preifat adeiladu gorsafoedd ynni niwclear newydd yn y DU.

Daw'r ymgynghoriad i ben ym mis Hydref 2007. Ar ôl hyn, dylai'r Llywodraeth allu gwneud penderfyniad ar ynni niwclear erbyn diwedd y flwyddyn.

Os bydd y Llywodraeth yn penderfynu caniatáu codi gorsafoedd ynni niwclear newydd, bydd angen asesu cynlluniau adweithyddion niwclear o ran eu diogelwch a'u heffaith amgylcheddol.

Mae sawl cwmni cynllunio gorsafoedd ynni niwclear neu 'werthwyr' wedi gofyn i ni asesu eu cynlluniau. Nid yw hyn yn golygu y bydd unrhyw rai o'r cynlluniau hyn o reidrwydd yn cael eu hadeiladu yn y DU. Bydd hynny'n dibynnu ar nifer o ffactorau eraill, yn cynnwys canlyniad ymgynghoriad y Llywodraeth. Caiff ein gwaith ar GDA ei atal os bydd y Llywodraeth yn penderfynu na ddylid caniatáu gorsafoedd ynni niwclear newydd.

Sut y gallwch gymryd rhan

Rydym yn awyddus i sicrhau bod ein proses GDA yn agored a thryloyw. Hoffwn i chi wneud sylwadau am y cynlluniau arfaethedig. Gallwch weld yr un adroddiadau diogelwch ac amgylcheddol a gyflwynir i ni gan bob gwerthwr gorsafoedd ynni, ar yr amod nad yw hyn yn peryglu ystyriaethau masnachol a diogelwch. Caiff y rhain eu cyhoeddi ar wefannau'r gwerthwyr. Gallwch wneud sylwadau am eu cynlluniau a bydd y gwerthwyr yn ymateb i'r sylwadau hyn. (Ni fyddant yn ymateb i sylwadau ar faterion mwy cyffredinol, megis a oes angen ynni niwclear ar y DU.)

Byddwn yn monitro'r broses hon o gynnwys y cyhoedd ac, ar gamau allweddol, yn cyhoeddi ein barn ar y prif faterion a godwyd a'r ymatebion a wnaed. Er y rhoddir sylw dyledus i sylwadau'r cyhoedd ac ymatebion y gwerthwyr yn ystod ein proses GDA, ni fydd yn gwneud pob penderfyniad o ran natur dderbyniol unrhyw gynllun gorsaf ynni, neu fel arall, yn unol â'n pwerau cyfreithiol, cyfrifoldebau a'n gweithdrefnau cyhoeddedig.

Gan ein bod yn asesu cynlluniau mewn camau, bydd cyfnod ar bob cam pan fydd eich sylwadau ac ymatebion y gwerthwyr yn llywio ein hasesiadau. Byddwn yn sicrhau bod y cyfnod hwn mor hir â phosibl, yn unol â'n cynllun ar gyfer cyhoeddi ein canfyddiadau ar bob cam.

Gweld gwybodaeth am gynlluniau a gwneud sylwadau

Gallwch weld yr adroddiadau diogelwch ac amgylcheddol ar gyfer unrhyw rai o'r cynlluniau sy'n cael eu hasesu ar wefannau'r gwerthwyr. Ceir cysylltiadau â phob un o'r rhain ar wefan y Swyddfa Rhaglenni ar y Cyd (JPO) (www.hse.gov.uk/newreactors) a sefydlwyd gan y rheoleiddwyr niwclear i oruchwylio'r broses GDA. Bydd y gwefannau hyn hefyd yn rhoi gwybodaeth i chi am y cyfnodau lle efallai y defnyddir eich sylwadau i lywio pob cam o'n GDA.

Os byddai'n well gennych gael copi o'r wybodaeth gynllunio ar CD (neu grynodeb o'r wybodaeth honno ar ffurf copi caled) dylech gysylltu â'r JPO yn:

Joint Programme Office
Redgrave Court
Merton Road
Bootle L20 7HS
Ffôn: 0151 951 5702
Ffacs: 0151 951 3732
e-bost: new.reactor.build@hse.gsi.gov.uk

Gallwch gyflwyno sylwadau drwy wefan y gwerthwr. Gallwch hefyd roi eich sylwadau yn ysgrifenedig drwy ddefnyddio fersiwn argraffedig o'r ffurflen sylwadau y gallwch ei harchebu drwy linell gwybodaeth HSE (0845 3450055). Gallwch ffonio'r un rhif os byddwch yn cael anhawster wrth ddefnyddio unrhyw rai o'r gwefannau.

Caiff yr holl sylwadau a wnaed ar wefannau'r gwerthwyr eu hanfon i'r Swyddfa Rhaglenni ar y Cyd.

Am ragor o wybodaeth ddefnyddiol ewch i wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (www.hse.gov.uk/nuclear) a gwefan Asiantaeth yr Amgylchedd (www.environment-agency.gov.uk/business/444304/ 945835).

[1] *Ateb yr Her Ynni*, Cm 7124, cyhoeddwyd ar 23 Mai 2007

[2] Rôl ynni niwclear mewn economi carbon isel - http://nuclearpower2007.direct.gov.uk/bgo/consultationdocs.asp